Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg

I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

22ain Hydref 2019

NEU Cymru yn croesawu'r cyhoeddiad ar gyflog athrawon

Mae undeb addysg fwyaf Cymru wedi croesawu cyhoeddiad y Gweinidog Addysg y bydd athrawon yng Nghymru yn derbyn codiad cyflog o 2.75%. Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog heddiw ar gyflogau athrawon gweithgar Cymru - bydd aelodau'n falch o weld yr arian ychwanegol yn eu cyflog o'r diwedd."

"Rydym yn falch y bydd cyflogau yng Nghymru yn cadw i fyny â chyflogau yn Lloegr ac rydym yn croesawu'n benodol y codiad cyflog o 5% ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso. Fodd bynnag, credwn y dylid bod wedi gosod hyn ar draws yr ystod gyfan o gyflogau athrawon i ddechrau adfer ar y colledion a ddioddefwyd ers dyfodiad mesurau llymder yn 2010. Mae Cymru wedi colli'r cyfle i wneud datganiad o fwriad gwirioneddol ynghylch a gwerth y proffesiwn addysgu."

GORFFEN

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: David Evans, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07815 071164.

e-bost: david.evans@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.